

MANTELL

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 55
Rhagfyr 2011

CYNNWYS

O Mantell	2
Canolfan Wirfoddoli	3
Cymunedau Mentrus	4
Plant a Phobl Ifanc	5
Iechyd, Gofal a Lles Cymdeithasol	6
Y Porth Ymgysylltu Cyfleoedd Ariannu	7
Digwyddiadau a Hyfforddiant	8

Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!



WYTHNOS NI



Cynhaliwyd 'Wythnos Ni' - wythnos plant a phobl ifanc Gwynedd rhwng 19 a 26 Hydref. Y thema eleni oedd 'Dathlu Teuluoedd' a bu llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar draws y Sir. Cynhaliwyd cynhadledd 'Teuluoedd yn Gyntaf' Gogledd Orllewin Cymru ym Mangor a threfnwyd diwrnodau hwyl llwyddiannus ar gyfer teuluoedd ar draws y Sir.

Yr Uned Symudol

COFIWCH FOD UNED SYMUDOL MANTELL GWYNEDD AR GAEL I'W LLOGI. COSTAU LLOGI'R UNED YW:

Aelodau o Mantell Gwynedd - £130 y diwrnod (a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).
Defnyddwyr eraill - £150 y diwrnod (a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).
Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod telerau arbennig.
E-bostio: yholiadau@mantellgwynedd.com
Ffonia: **01286 672 626**
Neu trwy ein gwefan www.mantellgwynedd.com



**STAFF MANTELL
GWYNEDD**

CAERNARFON

Prif Swyddog: Bethan Russell Williams

Tim Gwasanaethau

Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym:

Sioned Llwyd Larsen

Uwch Swyddog Datblygu a

Gwasanaethau:

Delyth Vaughan

Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc:

Carwyn Humphreys

Swyddog Datblygu Mentrau

Cymdeithasol:

Medwyn Williams

Tim Cyllid a Gweinyddol

Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth

Tim Cyllid a Gweinyddu:

Ceren Williams

Swyddog Gweinyddol:

Bronwen Rowlands

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:

Tracy Lynne Rotheram

Derbynydd:

Tayera Khan

Tim Canolfan Wirfoddoli

Cydlynnydd Gwirfoddoli:

Rhianon Jones

Swyddog Gwirfoddoli:

Iola Till

Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid:

Mirain Roberts

Swyddog Porth Ymgysylltu:

Carys Williams

DOLGELLAU

Tim Cyllid a Gweinyddol

Cynorthwy-ydd Gweinyddol:

Ellen ap Dafydd

Tim Canolfan Wirfoddoli

Swyddog Gwirfoddoli:

Ann Angharad Fleming

Nodyn gan y Prif Swyddog



Cawsom newyddion dros yr Haf fod Mantell Gwynedd yn un o ugain grŵp llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig oedd wedi

ymgeisio am arian o Gronfa Loteri Fawr "Gwella'r Dyfodol" ac yn un o dri cais llwyddiannus ar draws Cymru gyfan. Gwerth y cais yw £900,000. Roeddem wedi cyflwyno Datganiad o Ddidordeb fis Ebrill i'r Gronfa ac wedi creu a hwyluso consortia o ddarparwyr ar gyfer y cais. 'Rwyf wedi sôn llawer iawn yn ddiweddar am yr angen i fudiadau'r sector gydweithio yn agosach ac am yr angen i greu consortia i ymgeisio am gyfleoedd newydd. Dyma enghraifft ardderchog o hyn. Mae'r consortia yn cynnwys chwech o fudiadau trydydd sector sydd yn darparu gwasanaethau i deuluoedd yn y sir. Mae'n manteisio ar gryfderon y chwech ohonynt a Mantell Gwynedd yn gweithredu fel y corff arweiniol yn cyflwyno'r cais. Heb amheuaeth, dyma'r ffordd ymlaen i'r trydydd sector yn y dyfodol. Disgwylwn, os bydd popeth yn gweithio i'r drefn, y byddwn yn gallu dechrau gweithredu'r cynllun newydd yma yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Cewch ragor o hanes y cynllun yn y rhifyn nesaf.

Cronfa Loteri sydd hefyd wedi ariannu nifer o swyddi a hysbysebwyd yn ddiweddar gan Mantell Gwynedd. Eto, enghraifft o Mantell Gwynedd wedi dod a mudiadau at ei gilydd a gweithredu fel corff arweiniol i gyflwyno'r cais - y tro yma Cronfa "Llawn Bywyd" a Mantell Gwynedd yn llwyddo gyda chais am ychydig yn llai na £1m. Bellach rydym yn gweld y

prosiect ar fin cychwyn yng Ngwynedd. Bydd y cynllun yma yn cynnig gwasanaeth cyfeillio i unigolion dros 50 oed.

Mae hyn oll yn newyddion da wrth gwrs ond mae yma hefyd sawl neges i'w ganfod o'r ddau enghraifft uchod. Mae yn dangos yr angen i gydweithio o fewn y sector, adnabod cryfderon a gwendidau, osgoi dyblygu, a chydweithio yn agos i fedru cynnig am gyfleoedd newydd. Mae yma hefyd yn neges fod yna gyfleoedd ariannu gwych a nifer o gronfeydd yn cael eu clustnodi ar gyfer y trydydd sector yn unig. Mae hyn yn newyddion ardderchog ond mae'n rhaid cydweithio yn effeithiol i lwyddo. Mae yna neges bwysig arall sef yr angen i ni feddwl tu allan i'r bocsy. Yn draddodiadol darparu gwybodaeth, rhoi cyngor ar grantiau, darparu newyddlen ac ati fu rôl Mantell Gwynedd fel Cyngor Gwirfoddol. Ond mae'r tirlun wedi newid llawer iawn mewn cyfnod gymharol fyr. Mae tendrau wedi cymryd lle y rhan fwyaf o gronfeydd grantiau traddodiadol ac yn yr un modd rydym ninnau yn cynnig hyfforddiant tendro yn lle hyfforddiant ar lenwi ffurflenni grant. Mae creu a hwyluso consortia er mwyn tynnu arian sylweddol ei faint i lawr yn cynnig ffordd gyfoes ac arloesol o gefnogi'r sector.

Gobeithio eich bod wedi gallu mynychu ein Cyfarfod Blynnyddol yn y Mynydd Gwefru yn Llanberis mis yma. Eto, manteisiwyd ar y cyfle i gynnal Ffair Fasnachu ar gyfer rhai o fentrau cymdeithasol Gwynedd. Enghraifft arall o fanteisio ar y cyfle i gynnig rhywbeth dipyn bach yn wahanol. Gyda dymuniadau gorau i chi ôl dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Tan tro nesa,

Bethan

**DEUNYDD I'R RHIFYN
NESAF O MANTELL**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **3ydd o Chwefror 2012**

Danfongwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**, Swyddfa Mantell Dolgellau e-bost:

ellenapdafydd@mantellgwynedd.com
Ffôn **01341 422 575**



NEWYDDLLEN MANTELL AR DÂP

Mae Newyddlen Mantell ar gael ar dâp trwy Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru: 01248 353 604, ac hefyd Papur Llafar y Deillion: Dolgellau: 01341 422 697.



Tŷ Gobaith

Hosbis Plant

HOPE HOUSE OSWESTRY Tŷ GOBAITH GOMFY

Gwneud yn fawr o ffrwythau byr ac arbennig

WABWEDDIAETH 2008

EILIAD GYDA MUDIAD

Yn y rhifyn hwn, rydym yn ymateb i apel gan Shirley McCann sydd yn gweithio gyda Thŷ Gobaith. Agorwyd Tŷ Gobaith yng Nghonwy yn haf 2003. Mae'n darparu gofal seibiant rheolaidd i dros 70 o blant sydd yn derfynol wael, a'u teuluoedd yng Ngogledd Cymru. Mae'r mudiad yn ddibynnol ar roddion a'r arian mae eu siopau elusen yn gallu ei godi. Mae'r siopau yn ofnadwy o brin o nwyddau a gwirfoddolwyr - yn enwedig rhai gyda phrofiad o fanwerthu.

Tŷ Gobaith

Mae siopau Tŷ Gobaith ... yn ffordd wych o godi arian ac i gael bargaen yn ogystal ag ail-gylchu nwyddau na sydd ei angen arnoch bellach.

DIWRNOD GWNEUD GWAHANIAETH

A oeddech chi'n ymwybodol fod y dydd Sadwrn olaf ym mis Hydref yn cael ei adnabod fel 'Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth'? Dechreuwyd y syniad o ddathlu 'Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth' yn ôl ym 1995. Amcan y dydd yw tynnu sylw at y gwahaniaeth mae gwirfoddolwyr yn ei wneud drwy gyfrannu eu hamser, sgiliau a'u hegri.

I nodi'r achlysur eleni, trefnodd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd i rentu siop yng Nghanolfan Deiniol ym Mangor dros wythnos hanner tymor (24ain – 28ain Hydref). Gwahoddwyd mudiadau i ddo i'r siop i hyrwyddo eu gwaith ac i recriwtio gwirfoddolwyr newydd. Cafwyd wythnos brysur iawn gyda nifer o bobl yn dangos diddordeb mewn gwirfoddoli.

Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr wythnos.



Ernie Wright yn gwirfoddoli i geisio denu rhagor o gymorth i SSAFA o flaen y Siop Wirfoddoli ym Mangor.

HYFFORDDIANT DIWEDDAR



Gwirfoddolwyr yn brysur yn ymarfer eu sgiliau newydd - hyfforddiant Cymorth Cyntaf dan arweiniad Jenny Evans (o'r Groes Goch) yn Nhremadog

AWGRYMIADAU

Mae croeso i chi gysylltu a Chanolfan Wirfoddoli Gwynedd os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau hyfforddiant ar gyfer y dyfodol trwy ffonio **01286 672 626** neu **01341 422 575**.

Ymddiheuriadau

Ar dudalen 4 yng nghylchgrawn Mantell Gorffennaf 2011 (rhifyn 54), cynhwyswyd llun o Mr John Wyn Jones yn derbyn tystysgrif ar ran Grŵp Cymunedol Pobl Bangor, a chyfeiriwyd ato fel Cadeirydd y Grŵp. Hoffem nodi ein camgymeriad - Cadeirydd Balchder Bangor yw Mr John Wyn Jones, a Mr Nigel Pickavance yw Cadeirydd y Grŵp dan sylw - ymddiheuriadau didwyll am unrhyw gamarweiniad anfwriadol.

FFAIR MASNACHU



Ar Dachwedd 16eg, 2011 yng Nghanolfan Mynydd Gwefru, Llanberis cynhaliwyd am y tro cyntaf Ffair Fasnachu Trydydd Sector Gwynedd ynghyd â Chyfarfod Blynyddol Mantell Gwynedd. Roedd yn gyfle i ddod a holl fentrau cymdeithasol Gwynedd ynghyd i hyrwyddo a gwerthu eu cynnyrch, i rannu profiadau a rhwydweithio. Roedd yn gyfle i'r cyhoedd ddod draw i wneud eu siopa 'Dolig ac i gefnogi mentrau

cymdeithasol lleol. Agorwyd y Ffair yn swyddogol gan Gerallt Llewelyn, Prif Weithredwr Menter Môn/Annog Cyf a bu'n ddigwyddiad llwyddiannus iawn. Cafwyd cyfres o weithdai yn ystod y dydd ar godi arian yn y gymuned, masnachu arlein a rhodd cymorth. Diolch i'r mentrau wnaeth ddod draw i arddangos a gwerthu eu cynnyrch ac i'r cyhoedd am eu cefnogaeth.

WCVA yn lansio arweiniad i fasnachu yn y trydydd sector

Yn ddiweddar, mae WCVA wedi cyhoeddi arweiniad ar gyfer grwpiau trydydd sector sy'n gobeithio cynyddu eu cyllid drwy fasnachu. Enw'r arweiniad yw 'It's an idea, but is it a business?' ac mae wedi'i anelu at grwpiau sy'n bwriadu dechrau masnachu, neu sydd eisoes wedi dechrau, ac sy'n bwriadu defnyddio unrhyw elw i sicrhau cynaliadwyedd neu at ddibenion elusennol eraill. Mae'n trafod pynciau megis dechrau arni, cynllunio busnes, rôl cyfarwyddwyr, monitro ariannol a llawer mwy, ac mae'n llawn cyngor ac arweiniad amhrisiadwy. Mae'r arweiniad ar gael i'w lwytho am ddim: http://www.wcva.org.uk/images_client/publication/WCVA%20'A%20guide%20to%20third%20sector%20trading'_e9.pdf

Chwilio am Gyfarwyddwyr Newydd i Bwll Nofio Harlech



Mae cwmni Hamdden Harlech a Ardudwy Cyf yn fenter gymdeithasol gyda'r bwriad i gynnal a gwella cyfleusterau hamdden amrywiol o amgylch Pwll Nofio Harlech.

Rydym yn chwilio am gyfarwyddwyr newydd i gymryd rôl weithredol gyda rheolaeth a gweinyddiaeth y fenter er mwyn ehangu sgiliau a gwybodaeth y Bwrdd Rheoli cyfredol.

Rydym yn croesawu datganiad o ddiddordeb gan unrhyw berson sydd â phrofiad mewn busnes ac yn barod i roi ychydig o oriau bob mis i'r prosiect.

Am sgwrs bellach cysylltwch â:-

Trevor Gennard
Cadeirydd
01341 247 386

Anwen Barry
Ysgrifennydd
01766 771 623

Richard Holland
Cyfarwyddwr
01766 771 162

Gwirfoddolwyr y Mileniwm - Llwyddiannau

Da iawn i'r lluo o wirfoddolwr ifanc sydd wedi ennill cydnabyddiaeth am wirfoddoli drwy gynllun **Gwirfoddolwr y Mileniwm**.

Fe fuodd rhai o wirfoddolwyr ddigon lwcus i gael dathlu eu llwyddiannau yn y Prom Gwobrwyo, a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celt ar 3ydd o Dachwedd fel rhan o Wythnos Ni. Yn llwyddiannus oedd:

Tystysgrif 50 awr o wirfoddoli

Sion Wyn Hughes, David Aaron Evans, Rebecca Craddock, Grug Muse

Tystysgrif 100 awr o wirfoddoli

Mererid Williams, Kimberley Roberts, Lois Meleri Williams, Adam Jones

Gwobr Rhagoriaeth am 200 awr o wirfoddoli

Philip Barker a Thomas Davies



Thomas Davies gyda'i dystysgrifau.



Kimberley, Lois ag Adam yn mwynhau'r noson wobrwyo.

Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc Gwynedd -

GwirVol

Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc 2011-12. Mae 6 cais wedi bod yn llwyddiannus hyd yma.

Pwyslais mawr y grant yw cefnogi prosiectau gwirfoddoli bach a gynhelir ac a arweinir gan bobl ifanc (16-25 oed) yng Ngwynedd, a chroesewir ceisiadau ar gyfer y rownd sydd ar ôl:-

• 4ydd rownd – 31ain o Ionawr 2012

Am becyn cais a rhagor o wybodaeth cysylltwch â **Mirain Roberts** ym Mantell Gwynedd ar:
01286 672626 neu
mirain@mantellgwynedd.com

Grant Plant mewn Angen



Mae Gwynedd yn ardal sydd wedi ei dargedu ar gyfer cynllun Grantiau Bach 'Plant Mewn Angen'. Anelir y grantiau yma tuag at grwpiau cymunedol bychain a hoffai ddechrau rhaglen neu gynllun ar gyfer plant a phobl ifanc yn y gymuned leol.

Mae'r cynllun yn gallu darparu grantiau rhwng £50 i £10,000 y flwyddyn hyd at 3 mlynedd. **Dyddiad cau nesaf** ar gyfer ceisiadau yw **15ed Ionawr 2012**.

Defnyddiwch y cyswllt isod am ragor o wybodaeth

<http://www.bbc.co.uk/pudsey/grants/>

Copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ewch i'r adran **Newyddion** ar wefan
Mantell Gwynedd - www.mantellgwynedd.com

DIGWYDDIAD IECHYD DA YN LLWYDDO UNWAITH ETO ELEN!

Unwaith eto eleni bu i'r digwyddiad Iechyd Da y Gaeaf Yma a gynhaliwyd yn Nolgellau ar y 18fed o Hydref fod yn llwyddiant ysgubol. Heiodd criw da draw i'r Ganolfan Hamdden a'r Orsaf Ddan yn ystod y diwrnod ac amcangyfrifir bod dros 350 o bobl wedi cael budd o'r diwrnod.

Hwyluswyd y digwyddiad gan Mantell Gwynedd mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill. Roedd mwy na 40 o fudiadau ac asiantaethau yn bresennol i gynnig gwybodaeth a chynghor am faterion iechyd a lles; hefyd daeth criw o fyfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor draw a chynnig triniaethau dwylo – gwerthfawrogwyd y sesiynau hyn yn fawr ar y diwrnod. Diolch i bawb wnaeth sicrhau llwyddiant y diwrnod.



Yr Athro Merfyn Jones, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Mr E Llewelyn Evans, Cadeirydd Cyngwrair Cyflyrau Tymor Hir De Gwynedd a Mr Delwyn Evans, Cadeirydd Grŵp Gwybodaeth Pobl Hŷn De Gwynedd yn agor y digwyddiad.

HENEIDDIO'N DDA GWYNEDD – CANOLFAN NEWYDD YN NEFYN



“Cynllun arloesol i alluogi pobl hŷn i fyw bywyd llawn”. Mae Canolfan Heneiddio'n Dda newydd ei hagor yn Nefyn yn ddiweddar; bydd y Ganolfan ar agor pob Dydd Llun, Mercher a Gwener a bydd gweithgareddau yn cael eu cynnig yno ar gyfer pobl hŷn dros 50 oed fel Tai Chi, coginio, hanes lleol, gwersi cyfrifiaduron, cerdded a llawer mwy. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â 07709065410 neu stephen@acgm.co.uk

Gwasanaeth Newydd RNIB ym Maes Hawliau Lles

Mae RNIB wedi lansio gwasanaeth Hawliau Lles yn ddiweddar ar gyfer pobl sydd wedi colli eu golwg ac wedi cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Bydd y gwasanaeth yma'n helpu pobl i gael gwybodaeth am yr hyn y gallent ei hawlio, cymorth efo llenwi ffurflenni, herio dyfarniadau budd-dal ayb. Os ydych chi'n ymwybodol o rywun fyddai'n elwa o'r gwasanaeth cysylltwch â Chymdeithas y Deillion, Gogledd Cymru ar 01248 353604.

'GAIR I GLUST' GOGLEDD CYMRU

Gall defnyddwyr cymhorthion clyw yng Ngwynedd gael gafael ar gymorth hanfodol i drawsnewid eu clyw bob dydd yn y sesiynau misol galw heibio 'Gair i Glust' a gynhelir ledled Gogledd Cymru.

Bydd tîm o wirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig wrth law yn y sesiynau yma i roi awgrymiadau ar sut i gynnal a chadw cymhorthion clyw ac ymgyfarwyddo â hwy, gan gynnwys sut i'w glanhau, eu hail-diwbio a newid eu batris, gyda'r nod o helpu pobl i glywed yn gliriach a gwella'r modd y maent yn cyfathrebu ag eraill. Am fwy o wybodaeth, dyddiadau ac amseroedd sesiynau galw heibio cysylltwch â Paul Williamson ar 01248 614 437 neu 07423 433 657



Sefydliad James Tudor

Mae'r Sefydliad James Tudor yn dyrannu grantiau o bron i £1 miliwn y flwyddyn i elusennau cofrestredig yn y DU. Mae'r Sefydliad yn cefnogi ac yn gwahodd ceisiadau o fewn y meysydd canlynol - gofal lliniarol; ymchwil feddygol; addysg iechyd; gwobrau ac ysgoloriaethau; lliniaru salwch yn uniongyrchol; a sector gofal iechyd annibynnol. Mae'r grantiau sydd ar gael fel arfer i dalu am gostau prosiectau (caiff costau craidd eu hystyried) am gyfnod o flwyddyn i dair blynedd. Gellir gwneud ceisiadau unrhyw adeg, am fwy o wybodaeth ewch i <http://www.jamestudor.org.uk/>

CIST GYMUNEDOL GWYNEDD

Mae Cist Cymunedol Gwynedd yn cefnogi cynlluniau datblygu chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned. Mae uchafswm y grant wedi cynyddu eleni i £1,500. Am fwy o wybodaeth neu becyn cais cysylltwch â'r **Uned Datblygu Chwaraeon** ar **01758 704 010** neu e-bostio DavidLloydWilliams@gwynedd.gov.uk

Grant Cefnogi Byw yn Gynaliadwy – Amgylchedd Cymru



Lansiwyd y cynllun grantiau Cefnogi Byw yn Gynaliadwy yn ddiweddar dan nawdd Llywodraeth Cymru. Amgylchedd Cymru a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun newydd hwn ar y cyd â Cynnal Cymru.

Bydd y cynllun yn cefnogi prosiectau fydd yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru neu adeiladu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd - drwy fynd i'r afael ag ymddygiad penodol neu ddewisiadau o ran ffordd o fyw.

Gwerth y cynllun yw £250,000 a bydd ar gael i bob sector yng Nghymru. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r ceisiadau am grant yn amrywio rhwng £5,000 a £15,000.

Am fwy o wybodaeth am y cynllun ffoniwch **Amgylchedd Cymru** ar **02920 431727** neu ewch i info@environment-wales.org

Galluogi Gwynedd

Mae arian ar ôl yng Nghronfa Galluogi Gwynedd a weinyddir gan Mantell Gwynedd. Gall grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar draws Gwynedd barhau i ymgeisio am arian cyfalaf ar gyfer datblygu, uwchraddio neu adnewyddu adeiladau/asedau cymunedol hyd at fwyafswm o £5,000.00.

Y dyddiad cau nesaf a'r cyfle olaf i ymgeisio yw 31ain, Rhagfyr, 2011. Mae'n rhaid i bob cais gyrraedd trwy law neu yn y post CYN 5.00 pm.

I drafod unrhyw ymholiad neu am fwy o fanylion cysylltwch â **Delyth Vaughan** ar **01286 672 626** neu e-bostiwch delyth@mantellgwynedd.com

Y Porth Ymgysylltu

A ydych chi yn ddi-waith neu yn economaidd anweithgar neu a ydych chi yn gwybod am rywun sydd yn y sefyllfa hynny? A ydych yn fudiad sydd yn cefnogi unigolion sydd wedi colli hyder ac angen sgiliau newydd? O dan gynllun Y Porth Ymgysylltu mae dros ugain o fudiadau yng Ngwynedd yn gallu cynnig cyfleoedd i unigolion sydd angen cefnogaeth neu hwb i gychwyn ar y daith yn ôl i waith/addysg bellach neu wirfoddoli. Os ydych eisiau mwy o wybodaeth am y cyfleoedd cysylltwch â Carys Williams yn Mantell Gwynedd, Caernarfon neu ewch i wefan Mantell Gwynedd www.mantellgwynedd.com ac ewch i dudalen Y Porth Ymgysylltu ble mae newyddlen ddiweddaraf y cynllun yn rhoi crynodeb byr o'r cyfleoedd.




Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012 Mehafin 4ydd- 9fed



Bydd Mantell Gwynedd yn llogi gofod ar faes yr Eisteddfod ar gyfer mudiadau gwirfoddol y sir yn ystod yr Ŵyl fis Mehefin nesaf yng Nglynllifon ger Caernarfon. Os hoffech chi rannu stondin gyda Mantell Gwynedd, dyma gyfle i ddatgan eich diddordeb! Cysylltwch â ni gyda manylion eich mudiad:

Enw /Mudiad/Cyfeiriad/ E-bost/Ffôn

Cofiwch, y cyntaf i'r felin... Anfonwch eich manylion yn ôl at: **Carwyn Humphreys** neu **Mirain Roberts**, Mantell Gwynedd, 23-25 Y Bont Bridd, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1AB.

E-bost- carwynhumphreys@mantellgwynedd.com / mirainroberts@mantellgwynedd.com

Ffôn : 01286 672626.

Cyfieithu Cymunedol

cyfieithu ysgrifenedig • cyfieithu ar y pryd •
prawfddarllen a golygu • cyrsiau cyfieithu • sesiynau
gloywi iaith • Prisiau arbennig i gyrff cymunedol ac
elusennol

www.cyfieithucymunedol.org
post@cyfieithucymunedol.org
01492 642 796

HYFFORDDIANT MANTELL GWYNEDD

Dyddiad	Teitl y Cwrs	Lleoliad
25-01-2012	Diogelwch Bwyd Lefel 2	Llanrug
28-02-2012	Cymorth Cyntaf Brys	I'w gadarnhau
15-03-2012	Diogelwch Bwyd Lefel 2	Tremadog
22-03-2012	Gwneud i Asedau Weithio	Caernarfon

I gofrestru neu cael rhagor o wybodaeth ewch i'r wefan www.mantellgwynedd.com

Os hoffech drafod anghenion hyfforddiant eich mudiad cysylltwch â **Delyth Vaughan**

01286 672626,

delyth@mantellgwynedd.com. Neu i gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant cysylltwch ag **Ellen ap Dafydd 01341 422575**

EllenapDafydd@mantellgwynedd.com

BWT CAMPS BUSNES GWYNEDD

'Da chi 'riod wedi ystyried datblygu syniad a chychwyn busnes? Dyma'ch cyfle!

Ymunwch â Bwtcamps Galluogi cynhelir ar draws Gwynedd er mwyn cymryd y camau cyntaf tuag at fod yn fos arnoch chi eich hun.

Dwy awr o ysbrydoliaeth i drafod syniadau, gyfarfod â phobl busnes llwyddiannus Gwynedd a dysgu mwy am redeg menter eich hunan.

Bydd y Bootcamps yn cael eu cynnal yn fisol mewn lleoliadau ar draws Gwynedd.

Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim. Lle i ddeg person yn unig - i gofrestru cysylltwch â **Zoe Pritchard** ar **01766**

514057 zoe@annog.com www.galluogi.co.uk

Facebook/**CronfaGalluogi** Twitter: **@Galluogi**

Hyfforddiant WCVA

Dyddiad	Lleoliad	Tiwtor
Cael cyhoeddusrwydd ar gyfer eich prosiect a ariennir gan yr UE NEWYDD		
22 Rhagfyr 2011	Neuadd Morfa, Y Rhyl	Angela Tilcock / Emma Jones
Gweithio gyda chanlyniadau NEWYDD		
07 Rhagfyr 2011	Neuadd Morfa, Y Rhyl	Cyllid Cynaliadwy Cymru
Hwyluso Uwch		
08 Rhagfyr 2011	Neuadd Morfa, Y Rhyl	Peter Lahtbury
Cyflwyniad i roi trwy'r gyflogres NEWYDD		
19 Ionawr 2012	Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth	Eileen Kinsman
Rheoli prosiectau yn y sector gwirfoddol trwy gyfrwng y Gymraeg NEWYDD		
01 Chwefror 2012	Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth	Cefin Campbell, Spectrwm
Ymgysylltu ag unigolion a chymunedau na chlywir eu llais yn aml		
01 Chwefror 2012	Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth	Alain Thomas
Cyflwyniad i roi trwy'r gyflogres NEWYDD		
02 Chwefror 2012	Neuadd Morfa, Y Rhyl	Eileen Kinsman
Cyflwyniad i godi arian drwy gymynroddion		
23 Chwefror 2012	Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth	Eileen Kinsman

Gywbodaeth ar gael ar www.wcva.org.uk
Neu i wneud ymholiadau cyffredinol cysylltwch â
Lein Gymorth CGGC (WCVA) ar
0800 2888329 neu help@wcva.org.uk